# Penodi Cadeirydd – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

## Cefndir:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd neu Betsi Cadwaladr) yw'r sefydliad GIG lleol ar gyfer Gogledd Cymru.

Dyma'r bwrdd iechyd mwyaf yng Nghymru. Mae dros 19,000 yn y gweithlu ac mae'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio, yn trefnu ac yn darparu gwasanaethau iechyd i dros 700,000 o bobl.

Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd Iechyd darparu gwasanaethau yn chwe sir y Gogledd:

- Ynys Môn
- Gwynedd
- Conwy
- Sir Ddinbych
- Sir y Fflint
- Wrecsam

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau iechyd sylfaenol, cymunedol ac iechyd meddwl, yn ogystal â gwasanaethau ysbyty acíwt.
Rydym yn rhedeg tri phrif ysbyty (Ysbyty Gwynedd ym Mangor, Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan ac Ysbyty Maelor Wrecsam) yn ogystal â rhwydwaith o ysbytai cymunedol, canolfannau iechyd, clinigau, unedau iechyd meddwl a lleoliadau timau cymunedol.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydlynu gwaith 96 o feddygfeydd, a gwasanaethau GIG sy'n cael eu darparu gan 83 o bractisau deintyddol ac orthodontig, 69 o bractisau optometreg ac optegwyr a 147 o fferyllfeydd yn y Gogledd.

Trefnir gwasanaethau tra arbenigol, megis rhai triniaethau trawma mawr, gofal cardiaidd (y galon), a llosgiadau cymhleth, drwy Bwyllgor cenedlaethol Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru. Gellir darparu'r gwasanaethau hyn y tu allan i ffiniau ein hardal, er enghraifft yn Lloegr, Abertawe neu Gaerdydd.

**Crynodeb Cyhoeddusrwydd:**

Dosbarthodd Llywodraeth Cymru fanylion y penodiad drwy restrau rhanddeiliaid a ddelir gan yr Uned Cyrff Cyhoeddus (PBU) a phostio'r swydd wag ar wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru.

Hyrwyddwyd y swydd wag gan y sianeli Cyfryngau Cymdeithasol canlynol a'i hysbysebu drwy'r cyfryngau a restrir isod:

- Jobs Wales

- Golwg
- Diversity Jobs Network
- Safle Swyddi

**Rhwydweithiau**

Grŵp Cynghori Du Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)

Sefydliadau sydd â diddordeb yn y penodiadau hyn sef Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid BIPBC (SRG) y gofynnir iddynt rannu â'u rhwydweithiau unigol e.e. y Trydydd Sector/sector gwirfoddol.

Grwpiau awdurdodau lleol.

Aelodaeth iechyd siarad

IM a rhwydweithiau gweithredol

Arweinwyr a Llais Awdurdodau Lleol, corff llais dinasyddion newydd

Fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynyddu amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus, cafodd yr hysbyseb ei hanfon at sefydliadau gydraddoldeb a sefydliadau eraill sydd wedi mynegi diddordeb.

Cysylltiadau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth BIPBC – drwy arweiniad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Llywodraeth Cymru

**Crynodeb o'r broses recriwtio:**

Hysbysebwyd ar wefan Llywodraeth Cymru a Swyddfa'r Cabinet rhwng 27 Medi a 20 Hydref 2023

Sesiwn Rhanddeiliaid – 28 Tachwedd 2023. Roedd aelodau'r sesiwn rhanddeiliaid yn gynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd, ei bartneriaid a'i rhanddeiliaid a Llywodraeth Cymru. Gofynnwyd i'r ymgeiswyr gyflwyno cyflwyniad 15 munud ar y canlynol:

**"Sut ydych chi'n newid diwylliant ar draws ardal fawr a nifer o safleoedd?"**
**.**

Cyfweliad – 29 Tachwedd 2023

**Aelodaeth panel cynghori asesu:**

Judith Paget, Cyfarwyddwr Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Cyffredinol, Llywodraeth Cymru a Phrif Weithredwr GIG Cymru (Cadeirydd)
Arun Midha, Uwch Aelod Annibynnol y Panel
Helen Arthur, Cyfarwyddwr y Grŵp Gweithlu a Busnes Corfforaethol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru.

Derbyniwyd cyfanswm un cais ar gyfer y rôl newydd gan ei argymell I gyfweliad**.** Ystyriodd y Panel Cynghori Asesu bod yr ymgeisydd yn **Benodedig**.

**Hoff ymgeisydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaeth Cymdeithasol –** Dyfed Edwards

**Gwrthdaro Buddiannau**

Dim

**Gweithgaredd Gwleidyddol**

Dim